**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 26 TACHWEDD 2025 YN CP2 a thrwy Teams**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd); Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd); Karen Jones; Frank Cuthbert; Dianne Bevan; Francis Duffy; Bethan Price (trwy Teams) a Ginger Wiegand (trwy Teams).

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd); Cath Thomas (Swyddog Cymorth Busnes).

**Ymddiheuriadau:** Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon); Ginger Wiegand am adael yn gynnar.

**Amser Dechrau: 11:02**
**Amser Gorffen: 11:47**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Dim

## 2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Dywedodd y Cadeirydd mai hwn oedd ei chyfarfod olaf fel Cadeirydd cyn gadael y Comisiwn.

2.2. Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynwyr eraill am eu cefnogaeth yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf a dymunodd yn dda iddynt yn y dyfodol.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2025

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion sy'n Codi

4.1. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd a nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

4.2. **(Mater 1)** Cafodd y Comisiwn 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 22 Hydref 2025 a 19 Tachwedd 2025.

4.3. **(Mater 4)** Bydd drafft terfynol o'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr.

4.4. **(Mater 5)**
Recriwtio Cymorth Tîm
Penodwyd i'r swydd. Disgwylir i'r deiliad swydd ddechrau ar 1 Rhagfyr 2025.

Recriwtio Uwch Reolwr Llywodraethu a Chyllid
Cafodd y Comisiwn 14 o geisiadau a bydd 5 ymgeisydd yn cael eu cyfweld ar 8 Rhagfyr 2025.

4.5. **(Mater 10)** Cwblhawyd y rhagolwg cyllideb ar 25 Tachwedd 2025 a arweiniodd at danwariant o £284,000. **Cytunwyd** y dylai'r Prif Weithredwr gysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ildio £200,000 a chadw £84,000 i dalu am gostau staff ychwanegol yn 2026.

## 5. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE)

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Tachwedd 2025 gan Gadeirydd y BRhE ac fe'i **nodwyd**.

5.2. **Nodwyd** bod cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP) ond bod statws cyffredinol y prosiect yn goch o hyd o ganlyniad i risgiau sy'n ymwneud â chyflenwyr System Rheoli Etholiadol (EMS). Fodd bynnag, disgwyliwyd i gontract rhwng cyflenwyr EMS a Llywodraeth Cymru gael ei lofnodi cyn hir a byddai hyn yn caffael yr allbwn awtomataidd sy'n ofynnol.

5.3. **Nodwyd** y bydd camau Alffa a Beta'r prosiect yn cael eu cyfuno i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni'n effeithlon o fewn graddfeydd amser y prosiect.

5.4. **Nodwyd** y bydd Cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau yn cael eu cyhoeddi yr wythnos nesaf sy'n amlinellu gofynion y BRhE.

## 6. Cydnabyddiaeth Ariannol

6.1. Rhoddwyd y diweddariad ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar lafar gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

6.2. **Nodwyd**, yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Blynyddol Drafft, bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi rhoi adborth cadarnhaol ynglŷn ag ymgysylltu.

6.3. **Nodwyd** hefyd fod pryderon ynglŷn â'r taliad ymaddasu a'r cynnydd 6.4% ac y bydd angen i'r materion hyn gael eu trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar 3 Rhagfyr.

6.4. **Cytunwyd** y dylid anfon llythyr at y Gweinidog ynglŷn â'r taliad ymaddasu yn gofyn am fwy o gyfarwyddyd.

6.5. **Cytunwyd** hefyd y dylai negeseuon allweddol ynglŷn â dileu rhwystrau, cynyddu cyfranogiad a chryfhau iechyd democrataidd gael eu hychwanegu at y cynllun Cyfathrebu.

## 7. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

7.1. Nid oedd diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y mis hwn, ond bydd un yn dilyn yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr.

## 8. Adroddiad Cynnydd Arolygon

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Tachwedd 2025 gan y Pennaeth Arolygon.

8.2. **Nodwyd** bod y Pwyllgor Arolygon wedi cyfarfod ar 25 Tachwedd 2025 i drafod Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg ac y bydd fersiynau drafft o'r Adroddiadau Terfynol ar gyfer y ddwy yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr.

8.3. **Nodwyd** bod Cynigion Drafft Caerffili wedi cael eu cyhoeddi ddydd Llun 27 Hydref 2025 ac y bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 7 Rhagfyr.

## 9. Y Gofrestr Risgiau

9.1. Bydd adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn dilyn yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

## 10. Calendr Digwyddiadau

10.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

10.2. **Cytunwyd** y dylid ychwanegu dyddiadau Cydnabyddiaeth Ariannol allweddol.

## 11. Unrhyw Fater Arall

11.1. **Nodwyd** y bydd cyfarfod mis Rhagfyr yn cael ei gynnal ar-lein.

11.2. Cyflwynwyd plac llechen Gymreig coffaol i'r Cadeirydd sy'n gadael a diolchwyd iddi am ei harweinyddiaeth, ei chefnogaeth a'r gwaddol cryf y mae'n ei adael. Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynwyr, gan ddweud cymaint yr oedd wedi mwynhau gweithio gyda nhw, a soniodd am ba mor falch ydoedd o'r hyn yr oedden nhw a'r tîm wedi'i gyflawni yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn ystod cyfnod o newid mawr.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 10 Rhagfyr 2025**